wavehill
Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

wavehill.com

# Gwerthusiad o Taith: y rhaglen gyfnewid ryngwladol ar gyfer dysgu

**Gwerthusiad Cam Interim**

**Crynodeb Gweithredol**

**10 Mehefin 2025**




Taith

# Cyflwyniad

Mae’r adroddiad hwn yn ffurfio’r ail gam mewn gwerthusiad tri cham o raglen Taith, gan gyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad interim a gomisiynwyd ym mis Ebrill 2024. Prif nod y gwerthusiad interim yw adolygu’r perfformiad hyd yma a llywio'r broses barhaus o gyflawni rhaglen Taith a buddsoddiadau/datblygiad polisi yn y dyfodol yn y maes hwn. Taith yw'r rhaglen gyfnewid ryngwladol ar gyfer dysgu sy’n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen yn darparu cyllid grant i sefydliadau ledled Cymru o bum sector addysg ffurfiol ac anffurfiol fel a ganlyn:

1. Ysgolion
2. Ieuenctid
3. Addysg Oedolion
4. Addysg Bellach, Addysg Alwedigaethol a Hyfforddiant
5. Addysg Uwch.

Caiff grantiau eu dyfarnu i sefydliadau drwy ddau Lwybr Taith. Mae Llwybr 1 yn ariannu symudedd cyfranogwyr tra bod Llwybr 2 yn ariannu prosiectau cydweithredol rhyngwladol. Mae’r sefydliadau hyn yn cael eu disgrifio fel 'Derbynwyr Grantiau' tra bod y dysgwyr neu’r aelodau staff unigol sy'n cymryd rhan yn y cyfnewidiadau rhyngwladol yn cael eu disgrifio fel 'cyfranogwyr'.

Mae Taith yn cynnwys cyfnewidiadau rhyngwladol dwyffordd (h.y. symudedd mewnol ac allanol) ar gyfer dysgwyr, pobl ifanc, gwirfoddolwyr, ymchwilwyr a staff, yn amrywio o ychydig o ddiwrnodau i flwyddyn o hyd.

# Canfyddiadau Allweddol

## Cyd-destun Ymchwil a Pholisi

Mae ymchwil yn dangos yn gyson bod gweithgareddau symudedd rhyngwladol yn gwella canlyniadau academaidd a phroffesiynol i gyfranogwyr tra hefyd yn darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol i staff addysgol. Er bod cyfranogiad wedi cynyddu mewn rhaglenni cyfnewid rhyngwladol dros y degawdau diwethaf, bu pryderon ynghylch mynediad teg at y cyfleoedd hyn.

Tri amcan strategol Taith yw sicrhau bod cyfnewidiadau’n darparu’r effaith fwyaf, ariannu prosiectau cyfnewid dysgu o ansawdd uchel, a chefnogi arloesedd addysgol yng Nghymru. Mae cyflawni'r 'effaith fwyaf' yn canolbwyntio ar gefnogi unigolion sy'n wynebu rhwystrau i gymryd rhan mewn cyfnewid rhyngwladol. Mae rhaglen Taith yn cyd-fynd â nifer o flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru, yn enwedig y rhai sydd wedi’u hamlinellu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cyfrannu at amcanion polisi allweddol o fewn pob un o'r sectorau addysgol sy’n cael eu cwmpasu gan y rhaglen. Mae pwysigrwydd symudedd rhyngwladol a Taith wedi ei amlygu yng Nghynllun Cyflawni Rhyngwladol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Mae'r rhaglen wedi dangos cadernid sylweddol ac ymrwymiad i welliant parhaus yn wyneb cyfres o bwysau allanol, gan gynnwys effaith chwyddiant cynyddol a thoriadau sylweddol i gyllideb y rhaglen. Fodd bynnag, ni ellir tanamcangyfrif effaith y gostyngiadau yn y gyllideb ar y rhaglen.

## Cyflawni yn erbyn Targedau Allbwn

Hyd yn hyn mae Taith wedi darparu 7,891 o weithgareddau symudedd sy'n cynnwys 7,274 o gyfranogwyr a rhagwelir y bydd cyfanswm o 15,407 o gyfranogwyr symudedd erbyn diwedd y rhaglen. Yng nghyd-destun toriadau cyllidebol a phwysau ariannu, mae'r perfformiad hwn yn ganmoladwy. Mae tîm Taith yn hyderus, oni bai am y toriadau cyllidebol hynny, y byddent wedi "rhagori o bell" ar y targedau gwreiddiol yn seiliedig ar eu hamcanestyniadau a'r galw am y cymorth ar y pryd. Mae hyn yn dangos yr effaith sylweddol y mae'r toriadau cyllidebol wedi'i chael ar gyflawniad y rhaglen.

Mae wedi bod yn anoddach cyflawni cynnydd yn erbyn y targed ar gyfer gweithgareddau symudedd mewnol. Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchu newidiadau yn y cyd-destun ehangach ar ôl Brexit ond hefyd anymarferoldeb y dyraniad targed gwreiddiol.

Rhagwelir y bydd Taith yn cyflawni llawer mwy o gyfnewidiadau nag a gyflawnwyd gan Erasmus+ yng Nghymru dros gyfnod cymharol. Mae'r rhaglen hefyd wedi perfformio'n arbennig o gryf o ran ymgysylltu â chyfranogwyr Ieuenctid o gymharu ag Erasmus+, gan ddangos llwyddiant y rhaglen o ran ymgysylltu â sectorau addysg llai profiadol ac anffurfiol. Gellir dadlau mai prif gyflawniad y rhaglen hyd yma yw ei hymgysylltiad â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, sydd wrth wraidd gwerthoedd craidd Taith. Yn seiliedig ar y cyflawniad hyd at 31 Mawrth 2025, mae unigolion o'r grwpiau hyn yn cyfrif am 44% o'r holl gyfranogwyr yn erbyn targed o 40%. Ar adeg ysgrifennu, mae 98 o wledydd wedi bod yn rhan o raglen Taith, gan ragori ar y targed o 40 o wledydd, tra bod 48 o bartneriaethau aml-flwyddyn wedi'u sefydlu yn erbyn targed dangosydd perfformiad allweddol o 50 o bartneriaethau, sy'n golygu bod hyn bron wedi'i gyflawni.

## Adolygiad o Gyflawniad a Rheolaeth y Rhaglen

Mae'r rhaglen wedi'i chyflawni'n effeithiol gyda lefelau uchel o foddhad wedi'u mynegi gan bob grŵp o randdeiliaid. Mae wedi llwyddo i ddiwallu anghenion pum sector gwahanol, gan ddatblygu perthnasoedd cryf a chefnogol ac ymgysylltiad da. Mae Taith wedi llwyddo i ymgysylltu â nifer gadarnhaol o sefydliadau, sy'n cael ei ddangos gan y ffaith bod mwy wedi ceisio am y rhaglen na'r hyn a baratowyd ar ei gyfer a bod ceisiadau wedi'u derbyn oddi wrth gronfa sylweddol fwy o sefydliadau o gymharu ag Erasmus+ dros gyfnod cymharol.

Mae'r rhaglen hefyd wedi ariannu mwy o sefydliadau nag a ariannwyd gan Erasmus+ yng Nghymru dros gyfnod cymharol ac mae wedi bod yn arbennig o lwyddiannus wrth ymgysylltu â sefydliadau Ieuenctid ac Addysg Oedolion. Mae'n arbennig o nodedig bod y rhaglen wedi llwyddo i ymgysylltu â sefydliadau 'newydd' nad oeddent erioed wedi gwneud cais i gynnal gweithgaredd cyfnewid rhyngwladol o'r blaen, ac mae nifer y sefydliadau sy'n gwneud cais am y tro cyntaf wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, gan ddangos galw cryf am y cymorth.

Mae cytundeb cyffredinol bod Taith wedi bod yn llwyddiannus yn ei ffocws ar gynhwysiant trwy ystod o agweddau ar ei dyluniad. Efallai y bydd cyfleoedd i adeiladu ar hyn ymhellach gan gynnwys drwy gyflwyno cyfleoedd dysgu newydd rhwng cymheiriaid.

Mae’r rhanddeiliaid yn ystyried bod ymgysylltiad cryf yn gryfder allweddol i’r rhaglen ac yn cyfeirio’n benodol at broffesiynoldeb a hygyrchedd y tîm cyflawni.

Mae'r rhan fwyaf o Dderbynwyr Grantiau yn fodlon ar y prosesau ymgeisio, asesu a dyfarnu grantiau. Mae'r rhaglen wedi dod yn fwy awtomataidd a hyblyg gyda gwelliannau yn sgil hynny i brosesu taliadau a phrosesu ffurflenni cais. Mae’r prosesau rheoli a llywodraethu wedi bod yn effeithiol yn dilyn adolygiad llywodraethu manwl, er y gallai fod cyfleoedd i ddefnyddio ymhellach y cyfoeth o wybodaeth ac arbenigedd sydd ar gael drwy'r Bwrdd Cynghori.

## Dadansoddiad o’r Canlyniadau Cynnar

Mae'r rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfranogwyr mewn amrywiaeth o wahanol feysydd. Caiff hyn ei ategu gan sylwadau gan aelodau staff a Derbynwyr Grantiau. Yn achos cyfranogwyr sy'n ddysgwyr, mae hyn wedi cwmpasu canlyniadau meddal megis mwy o hyder, annibyniaeth ac ymwybyddiaeth ryngddiwylliannol, ynghyd â gwell parodrwydd ar gyfer gwaith a chyrhaeddiad addysgol.

Mae adborth gan gyfranogwyr sy’n staff ar draws pob sector wedi datgelu effaith gadarnhaol ar forâl a datblygiad proffesiynol. Mae datblygiad staff wedi bod yn ganlyniad pwysig, yn enwedig mewn Ysgolion trwy welliannau yn nyluniad y cwricwlwm, addysgeg a dysgu proffesiynol. Mae tystiolaeth gref o ganlyniadau wedi’u cynhyrchu ar gyfer Derbynwyr Grantiau, gyda sefydliadau'n tystio ei bod wedi arwain at arloesedd, arferion gwell, a pherfformiad gwell.

Mae Taith wedi chwarae rhan allweddol wrth sefydlu cysylltiadau addysg rhyngwladol ac adeiladu arnynt. Mae wedi cynyddu'r gallu i gymryd rhan mewn gweithgarwch cyfnewid dysgu rhyngwladol o fewn sectorau addysgol ffurfiol ac anffurfiol yng Nghymru, gan gynrychioli effaith waddol allweddol. Mae'r rhaglen hefyd wedi dylanwadu ar raglenni cyfnewid cenedlaethol a rhyngwladol eraill ar gyfer dysgu ac wrth wneud hynny mae wedi cyfrannu at ddarparu manteision cymell meddal i Gymru ac at hyrwyddo Cymru fel cenedl sy'n edrych tuag allan.

## Asesiad Gwerth am Arian

Mae'r rhaglen wedi cyflawni gwerth Da i Ragorol am arian ar draws y rhan fwyaf o'r dangosyddion a sefydlwyd. Roedd dangosyddion Tegwch yn arbennig o gryf, gyda 6 o 8 yn rhagorol, gan gynnwys cyfrannau o unigolion heb gynrychiolaeth ddigonol ac unigolion dan anfantais sy'n ymwneud â rhaglen Taith. Er bod cost-effeithiolrwydd yn heriol i'w fesur, mae tystiolaeth bod meysydd effaith wedi'u cyflawni, ond bod hyn yn uwch nag amcanestyniadau gwreiddiol costau’r prosiect.

# Casgliadau ac Argymhellion

Mae'r dystiolaeth sy'n cael ei thrafod yn yr adroddiad hwn yn dangos bod Taith wedi perfformio'n rhyfeddol hyd yn hyn gyda lefelau uchel o foddhad ymhlith pob grŵp o randdeiliaid a chynnydd da yn erbyn targedau allbwn. Mae rhanddeiliaid wedi cael eu plesio'n arbennig gan gyflymder y cyflawni a graddfa'r cynnydd a wnaed mewn cyfnod mor fyr. Mae hyn hefyd yn cael ei gefnogi gan y data sy'n dangos bod Taith wedi cyflawni mwy na saith mil o weithgareddau symudedd eisoes, a'r canfyddiad yw bod y rhain wedi creu manteision pwysig i gyfranogwyr a Derbynwyr Grantiau fel ei gilydd. Mae Taith yn cymharu'n ffafriol ag Erasmus+ o ran nifer y sefydliadau sy'n gwneud cais am gyllid, nifer y prosiectau a'r gweithgareddau symudedd a gefnogir, ac ymgysylltiad â sectorau addysg anffurfiol yn benodol.

Efallai mai'r prif gyflawniad yw llwyddiant y rhaglen wrth sicrhau ymgysylltiad gan grwpiau targed allweddol, yn benodol unigolion heb gynrychiolaeth ddigonol a sefydliadau anhraddodiadol. Mae hyn wedi bod yn hanfodol wrth sicrhau bod Taith wedi targedu'r cymorth at y rhai na fyddent yn gallu elwa o gyfleoedd cyfnewid rhyngwladol fel arall. Mae'r llwyddiant hwn wedi'i ategu gan sawl cryfder allweddol sy'n cynnwys yr agweddau arloesol a gyflwynwyd i ddyluniad y rhaglen, y ffocws strategol allweddol ar ymgysylltu â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, a'r gefnogaeth, y wybodaeth a'r arbenigedd personol cryf sy'n cael ei ddarparu gan y tîm cyflawni.

Yn seiliedig ar y canfyddiadau allweddol a gyflwynwyd uchod, rydym yn gwneud cyfres o argymhellion sydd wedi'u dylunio i gynorthwyo'r rhaglen i barhau i gyflawni. Mae rhai o'r argymhellion hyn wedi'u dylunio i lywio gwaith Taith dros y cyfnod cyflawni sy'n weddill, tra bod eraill yn fwy addas ar gyfer rhaglenni olynol posibl. Mae'r argymhellion hefyd yn amrywio rhwng rhai y gellir eu gweithredu gan dîm cyflawni Taith a rhai a fyddai'n gofyn am gamau gweithredu gan randdeiliaid eraill, fel Llywodraeth Cymru fel cyllidwr y rhaglen.

| Rhif | Thema | Disgrifiad | Cyfnod cyfeirio | Cynulleidfa darged |
|---|---|---|---|---|
| **1** | Cynyddu ymgysylltiad a chyfathrebu strategol | Mae sawl elfen o raglen Taith wedi'u nodi fel enghreifftiau o arferion gorau. Mae'r rhaglen hefyd wedi gweld llawer mwy o ymgysylltiad gan sefydliadau Cymru nag a welwyd gydag Erasmus+. Felly mae yna gyfleoedd i ymgysylltu'n strategol â rhanddeiliaid yn ddomestig ac yn rhyngwladol. Gallai hyn fod ar ffurf cynllun cyfathrebu strategol, i'w gweithredu mewn cydweithrediad agos â swyddogion Llywodraeth Cymru i lywio polisi a chynlluniau ar gyfer fersiwn newydd o Taith a/neu drafodaethau am safbwynt y DU ynghylch rhaglen Erasmus+. Gellid cyflawni hyn hefyd drwy sicrhau bod Taith yn cymryd rhan mewn / yn cael ei wahodd i unrhyw fforymau neu grwpiau rhanddeiliaid perthnasol dan arweiniad Llywodraeth Cymru sy'n edrych ar bolisi a chyfeiriad strategol symudedd ieuenctid, gweithgarwch rhyngwladol ac addysg i Gymru i'r dyfodol. Gellir defnyddio data o Arolwg Canlyniadau'r Cyfranogwyr i ategu dull yr astudiaethau achos wrth godi ymwybyddiaeth am effaith Taith. | Y cyfnod cyflawni sy'n weddill a'r mewnbwn i'w ystyried ar gyfer penderfyniadau polisi a strategol ynghylch Taith i'r dyfodol. | Tîm cyflawni'r rhaglen, Bwrdd y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu, swyddogion Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid allweddol eraill |
| **2** | Archwilio heriau wrth gyflawni gweithgareddau symudedd mewnol | Dylai Taith ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r rhesymau y tu ôl i'r anawsterau o ran hwyluso mwy o weithgarwch symudedd mewnol. Os oes dyhead am gyfradd uwch o weithgarwch symudedd mewnol wrth gyflawni'r rhaglen yn y dyfodol, mae'n debygol y bydd angen camau gweithredu penodol megis gosod trothwyon gofynnol. | Nodi heriau yn ystod y cyfnod cyflawni sy'n weddill | Tîm cyflawni'r rhaglen, Llywodraeth Cymru, a gweithgarwch gwerthuso yn y dyfodol |

| Rhif | Thema | Disgrifiad | Cyfnod cyfeirio | Cynulleidfa darged |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| **3** | Cynorthwyo Derbynwyr Grantiau i sicrhau cyfraddau cynhwysiant uchel yn fwy cyson | Dylai Taith ystyried camau i gynyddu cyfran y Derbynwyr Grantiau sydd â lefelau cryf o ymgysylltiad â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Gallai hyn gynnwys hwyluso dysgu rhwng cymheiriaid a lledaenu enghreifftiau o arferion gorau o ran dulliau i ymgysylltu â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Dylai Taith ystyried gwella gwelededd y cyllid ychwanegol sy’n cael ei gynnig yng nghyfathrebiadau’r rhaglen. Dylid monitro effaith y polisi trothwy gofynnol newydd yn agos hefyd. | Y cyfnod cyflawni sy'n weddill | Tîm cyflawni'r rhaglen |
| **4** | Ehangu rôl Bwrdd Cynghori Taith | Mae Bwrdd Cynghori Taith yn darparu cyfoeth o brofiad a gwybodaeth berthnasol iawn y dylid ei gadw pe byddai fersiwn newydd o'r rhaglen yn cael ei rhoi ar waith. Dylai Taith ystyried ehangu rôl y Bwrdd Cynghori gan gynnwys datblygu swyddogaeth Gorchwyl a Gorffen i hybu blaenoriaethau penodol. | Manteisio’n llawn ar arbenigedd dros y cyfnod cyflawni sy'n weddill<br><br>Adolygu'r Cylch Gorchwyl ac ystyried ehangu'r rôl ar gyfer cyflawniad y rhaglen yn y dyfodol | Tîm cyflawni'r rhaglen a Llywodraeth Cymru |
| **5** | Adeiladu ar lwyddiant presennol wrth ymgysylltu â sefydliadau newydd a llai profiadol | Mae hwn yn faes llwyddiant sylweddol, er bod cyfleoedd i adeiladu ar hyn ymhellach wrth gyflawni’r rhaglen yn y dyfodol. Er enghraifft, dylai Taith fanteisio ar gymorth gan randdeiliaid fel Medr i helpu i greu pwyntiau mynediad i ymgysylltu â'r sector Addysg Oedolion.<br><br>Dylid cynnal yr arferion da a roddwyd ar waith gan Taith, megis defnyddio Hyrwyddwyr Taith ac amryw agweddau ar ddyluniad y rhaglen wrth gyflawni’r rhaglen yn y dyfodol a dylid dyrannu adnoddau a chyllid priodol i'r swyddogaethau hyn. | Cyflawniad y rhaglen yn y dyfodol | Tîm cyflawni'r rhaglen a Llywodraeth Cymru |

| Rhif | Thema | Disgrifiad | Cyfnod cyfeirio | Cynulleidfa darged |
|---|---|---|---|---|
| **6** | Cryfhau data canlyniadau'r rhaglen | Dylid ystyried sawl cam i wella'r data ar ganlyniadau sy’n cael ei gasglu drwy brosesau monitro'r rhaglen.<br><br>Yn gyntaf, dylai Taith ystyried ei gwneud yn orfodol i Dderbynwyr Grantiau gynyddu'r gyfradd ymateb i Arolwg Canlyniadau’r Cyfranogwyr. Yn ail, dylid ystyried model sy'n seiliedig ar 'bellter a deithiwyd' ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol. Yn drydydd, dylid defnyddio graddfa Likert 10 pwynt i gofnodi mwy o fanylder yn yr ymatebion.<br><br>Yn olaf, dylai Taith hefyd ddatblygu system i gofnodi'r allbynnau a gynhyrchir trwy brosiectau Llwybr 2, yn ogystal â chofnodi lledaeniad yr allbynnau hyn, a lle bo modd eu heffaith wrth greu newid y tu hwnt i'r Derbynwyr Grant. | Cyflawniad y rhaglen yn y dyfodol | Tîm cyflawni'r rhaglen a Llywodraeth Cymru |

## Cysylltu â ni

0330 122 8658

wavehill@wavehill.com

wavehill.com

## Dilynwch ni ar ein cyfryngau cymdeithasol

@wavehilltweets

wavehill